| | |
|---|---|
| **Rhif:** | **3** |
| **Cais Rhif:** | **C20/0067/03/AC** |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cofrestru:** | **28/01/2020** |
| **Math y Cais:** | **Mwynau** |
| **Cymuned:** | **Ffestiniog** |
| **Ward:** | **Bowydd a Rhiw** |
| **Bwriad:** | **Cais o dan Adran 73 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i amrywio amod 1 ar ganiatâd cynllunio C03M/0010/03/MW i barhau gweithredu busnes sefydledig am 20 mlynedd ychwanegol hyd at 31 Ionawr 2040** |
| **Lleoliad:** | **Chwarel yr Oakley, Blaenau Ffestiniog LL41 3ND.** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **CANIATÁU GYDAG AMODAU** |

## 1. Disgrifiad:

1.1 Mae safle’r cais yn cynnwys gwaith mwynau sy'n prosesu gwastraff llechi i gynhyrchu cynhyrchion llechi gronynnog a phowdrau. Caiff ei leoli tua 200 metr i'r gorllewin o ffordd yr A470 (C) sydd wedi ei hadlinio, ac eiddo preswyl a chyn gapel yn Nhal-y-waenydd. Mae'n llunio rhan o gyfadeiladau ehangach chwarel yr Oakley a leolir i'r gogledd o Flaenau Ffestiniog, ac yn ymestyn dros ardal sylweddol ar ystlys de-orllewinol Moel Druman ac Allt Fawr. Mae safle'r gwaith wedi gweithredu yn annibynnol o weddill gweithfeydd chwarel yr Oakley ac nid yw'n llwyr ddibynnol ar gyflenwad o ddeunydd o'r tomenni llechi cyfagos.

1.2 Mae deunydd crai llechi yn dod i'r safle o ffynonellau eraill neu'n cael ei symud o'r dyddodion gwaith mwynau cyfagos gyda thuriwr â thrac (tracked excavator) a'i fwydo i falwr safn (Jaw crusher) cyn ei drosglwyddo i hopran fwydo a chludydd sy'n cysylltu â'r gwaith mwynau drwy sychwr. Yn yr adeilad, caiff y gwastraff llechi ei felino a'i sgrinio gyda chyfran o'r deunydd wedi'i brosesu gyda haen o bigment lliw a/neu bolymer. Caiff y cynnyrch gorffenedig un ai ei lwytho'n uniongyrchol i danceri powdr neu ei roi mewn bagiau a'i storio cyn eu dosbarthu gan ddefnyddio'r ffordd.

1.3 Mae hwn yn un o dri cais cynllunio i newid darpariaethau caniatadau cynllunio presennol i ymestyn cyfnod y gwaith mwynau ac i sicrhau parhad y gwaith. Felly, mae cais C20/0066/03/AC a C20/0079/AC yn bwriadu amrywio amodau ar ddau ganiatâd perthynol i sicrhau parhau i ddefnyddio'r ardal deunyddiau crai a'r adeilad storio a symud tomenni llechi hyd at yr un dyddiad gorffen sef 31ain Ionawr 2040.

1.4 Dyma’r ail gais i amrywio amodau a osodwyd ar y caniatâd cynllunio gwreiddiol a gymeradwywyd yn Chwefror 1990. Cais Cynllunio C03M/0010/03/MW i ddatblygu tir heb gydymffurfio gyda amodau 4, 5 a 6 o Ganiatâd Cynllunio 5/59/240, i ganiatáu parhau i weithredu safle'r gwaith o 07.00 awr i 19.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener (h.y. gweithredu am 24 awr) ynghyd â chynnydd mewn allbwn o 6 i 9 llwyth o ddeunydd fesul diwrnod gwaith a ddim mwy na 2 lwyth ar unrhyw ddydd Sul, Gŵyl y Banc neu Wyliau Cyhoeddus. Roedd y caniatâd hefyd yn caniatáu newid i'r cyfyngiadau ar allyriadau sŵn yn ddarostyngedig i amodau sydd yn gofyn bod y gweithredwr yn gweithredu cynllun monitro sŵn.

1.5 Mae'r cais hwn yn ceisio caniatáu parhau i weithredu'r gwaith prosesu llechi dan delerau'r amodau a newidiwyd yn atodol i C03M/0010/03/MW am 20 mlynedd ychwanegol.

1.6 Nid yw'r cais yn syrthio o fewn y disgrifiad a'r meini prawf datblygu sydd yn Atodlen 1 Rheoliadau Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017, gan bod ardal y datblygiad yn syrthio y tu allan i'r trothwy gorfodol o 25ha. Er hynny, mae'r datblygiad yn syrthio o fewn y disgrifiad o ddatblygiad sydd wedi'i nodi ym Mharagraff 2, Atodlen 2 y Rheoliadau EIA, ' *Extractive Industry, Quarries, open-cast mining and peat extraction’, ac fe ystyrir bod y trothwy cymwys o ‘all development…’ yn ddigonol i gynnwys y cynnig.* Yn ogystal, mae Paragraff 13, Atodlen 2, *any change to or extension of development of a development listed in Schedule 1 or Schedule 2’.* Ystyriodd barn sgrinio'r awdurdod, dyddiedig 25ain Mawrth 2020 rhyngweithiad yr holl ystyriaethau amgylcheddol perthnasol a chasglodd, o ystyried graddfa ac effaith y cynigion datblygu, nad oedd angen asesiad effaith amgylcheddol.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae'r ystyriaethau polisi yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol a Chynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

2.2 Yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn ogystal â chymryd pob cam rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r amcanion datblygu cynaliadwy (neu lesiant). Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r "egwyddor datblygu cynaliadwy", fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015, ac wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Ystyrir na fyddai unrhyw effaith sylweddol nac annerbyniol ar gyflawni'r amcanion llesiant o ganlyniad i'r argymhelliad arfaethedig.

## Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-2026

Polisi Strategol PS 1: Yr Iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig
Polisi Strategol PS 5: Datblygu Cynaliadwy
Polisi Strategol PS 13: Darparu Cyfleoedd ar gyfer Economi Ffyniannus
Polisi Strategol PS 20: Cadw a ble fo'n Briodol Gwella Asedau Treftadaeth
Polisi Strategol PS 22: Mwynau
POLISI AT 1: Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau Cofrestredig, Parciau a Gerddi
POLISI AT 3: Asedau treftadaeth heb eu dynodi sy'n bwysig yn lleol neu yn rhanbarthol
POLISI AMG 3: Gwarchod a Gwella Nodweddion a Rhinweddau sydd yn unigryw i Gymeriad y Dirwedd Leol
POLISI AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol
POLISI AMG 6: Gwarchod Safleoedd o Arwyddocâd Rhanbarthol neu Leol
POLISI PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu
POLISI PCYFF 6: Cadwraeth Dŵr
POLISI TRA 4: Rheoli Ardrawiadau Cludiant
POLISI MWYN 3: Datblygiadau Mwynau
POLISI MWYN 5: Cylchfeydd Rhagod o amgylch Safleoedd Mwynau
POLISI MWYN 9: Adfer ac Ôl-ofal
Canllaw Cynllunio Atodol - Cynnal a chreu cymunedau ffyniannus a chynaliadwy 2019
Canllawiau Cynllunio Atodol - Ardaloedd Cymeriad y Dirwedd 2009

## Polisïau Cenedlaethol:

- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi ym Mholisi Cynllunio Llywodraeth Cymru, Fersiwn 10 (Rhagfyr 2018),
- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi yn Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (Medi 2009) Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi yn Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 11: Sŵn (Hydref 1997) Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi yn Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 18: Trafnidiaeth (Mawrth 2007) Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Hydref 2017)
- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi yn Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 23: Datblygu Economaidd (Chwefror 2014), Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi yn Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Mai 2017)
- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol a nodir yn Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: AGREGAU (Mawrth 2004), Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Prydlesodd OMYA ardal y cais presennol gan Alfred Mcalpine Slate Limited yn 1997, wedi iddynt brynu holl chwarel Ffestiniog. Dechreuodd hanes cynllunio'r safle gyda Chaniatâd Tybiedig a wnaed ar 12 Ebrill 1989 dan ddarpariaethau Rhan 23 Gorchymyn Datblygu Cyffredinol 1988 i Symud Deunydd o Ddyddodyn Gwaith Mwynau.

3.2 Wedi hynny, caniatawyd Caniatâd Cynllunio 5/59/240 ar 8 Chwefror 1990 i 'osod Gwaith Prosesu Llechi' a daw hwn i ben ar 31 Ionawr 2020.

3.3 Ar 12 Mawrth 1991 cyflwynwyd cais pellach cyf. 5/59/240A gan y cyn weithredwr Messers Redland Aggregates Ltd, i amrywio Amodau 5 a 6 oedd yn atodol i Ganiatâd Cynllunio 5/59/240 i lacio'r oriau gwaith a chynyddu nifer symudiadau cerbydau. Gwrthodwyd y cais hwn ar 18 Mehefin 1991.

3.4 Roedd Cais rhif C00M/0011/03/MW yn amodol i Asesiad Effaith Amgylcheddol llawn a chaniatawyd caniatâd cynllunio gydag amodau ar 23ain Medi 2002. Mae'r cynigion wedi eu canoli ar weithfeydd presennol Chwarel Ffestiniog/Gloddfa Ganol a gafodd eu cyfuno wedi iddynt gael eu caffael ar y cyd yn 1997 gan Alfred McAlpine Slate Products. Mae'r caniatâd am gyfnod cyfyngedig a ddaw i ben ar 31ain Rhagfyr 2025 ac yn golygu cyfuno a helaethu gwaith chwarela arwyneb i gael mynediad at bileri o lechi mewn gwaith tanddaearol sydd wedi'i adael sy'n cynnwys ardal sy'n amodol i ganiatâd blaenorol a roddwyd yn amodol yn 1988.

3.5 Ym mis Mai 2001, ceisiodd OMYA gael caniatâd i reoleiddio terfyn y safle oedd wedi ei ymestyn y tu hwnt i ardal Caniatâd Cynllunio 5/59/240. Ar yr un pryd fe geisiwyd cael caniatâd cynllunio ôl-weithredol i godi sied storio a llawr caled ar y safle. Cyflwynwyd caniatâd cynllunio cyf. C01M/0014/03/MW ar 5 Gorffennaf 2001 a ddaw i ben ar 31 Ionawr 2020.

3.6 Daw Cais Cynllunio C03M/0010/03/MW a ganiatawyd ar 18 Mehefin 2001 i amrywio Amodau 4, 5 a 6 o Ganiatâd Cynllunio 5/59/240 i ganiatáu gweithio 24 awr, i ben ar 31 Ionawr 2020.

3.7 Cais am dystysgrif ar gyfer defnydd cyfreithlon, cyf. C06M/0090/03/TC, Fferm Bryntirion, i gadw gweithdy cynnal a chadw cerbydau, storfa a swyddfa a defnyddio tir i barcio cerbydau masnachol. Er hynny, gwrthodwyd y cais ar 5ed Rhagfyr 2007 oherwydd na chafodd tystysgrif perchnogaeth ei chyflwyno.

3.8 Caniatawyd cais cyf. C10M/0103/03/MW, yn ddarostyngedig i amodau ar 29ain Tachwedd 2010 i reoleiddio a gweithio'r deunydd yn y dyfodol o ddyddodion gwaith mwynau. Tomenni chwarel Bryntirion a'r Ffridd, Chwarel yr Oakley, Blaenau Ffestiniog.

## 4. Ymgynghoriadau:

| | |
|---|---|
| Cyngor Tref Ffestiniog. | Cefnogi'r cais ar yr amod na fydd gan unrhyw ddatblygiad ar y safle yn y dyfodol effaith bellach ar ansawdd dŵr gwael iawn afon Barlwyd. |
| Uned Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru: | Cyflwynwyd ymateb cyffredinol ar gais C20/0066/03/AC, yn cadarnhau nad yw Llywodraeth Cymru fel awdurdod priffyrdd cefnffordd yr A470 yn cyflwyno cyfarwyddyd o ran y datblygiad. |
| Gwarchod y Cyhoedd Gwynedd: | • Fel arfer, caiff allyriadau sŵn gyda chyfyngiadau eu gosod mewn eiddo sy'n benodol sensitif i sŵn, mae lefelau sŵn wedi eu gosod ar y ceisiadau presennol ac ystyrir bod angen cynnwys amodau sŵn i ddiogelu amwynder y trigolion cyfagos, ar gyfer lefelau yn ystod y dydd a'r nos.<br>• Ar hyn o bryd mae gan y safle broses wedi ei hawdurdodi o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016. Er hynny, os yw'r Awdurdod Cynllunio yn tybio ei bod yn angenrheidiol gall amodau ansawdd aer gael eu hamodi o ran deunydd gronynnol pm10 a pm2.5, â lefelau Nitrogen Deuocsid.<br>• Bydd yr amodau ansawdd aer yn cynnwys monitro ar gyfer dyddodion llwch sy'n peri niwsans a wnaed ar gais yr awdurdod cynllunio mwynau. |
| Uned Priffyrdd a Thrafnidiaeth Gwynedd: | Ddim yn bwriadu gwneud argymhelliad gan na ystyrir y bydd y datblygiad yn effeithio'n andwyol ar unrhyw briffordd na phriffordd arfaethedig. |

Uned Bioamrywiaeth Gwynedd:

- Ni chafodd adroddiad ecolegol ei gyflwyno gyda'r cais ond gan fod y safle yn chwarel weithredol, nid oes unrhyw gynefinoedd ac felly mae'r cynigion yn annhebygol o effeithio ar natur a nodweddion bywyd gwyllt.
- Argymhellir cynllun adfer penodol i'r safle i greu cynefinoedd megis rhostir a choetir gyda nodweddion bywyd gwyllt fel pyllau, ardaloedd gaeafgysgu i ymlusgiaid a mannau gorffwys i ddyfrgwn.
- Dylid defnyddio deunyddiau mewn ffordd fydd yn annog twf planhigion a chytrefu, er enghraifft, defnyddio gronynnau mân, gwaddodion, clai, fydd yn cynorthwyo i greu pridd a swbstrad fydd yn dal dŵr.
- Mae angen addasu'r gymysgedd o hadau blodau arfaethedig i laswelltir/rhostir mosaig a glaswelltir gwlyb i gynyddu llwyddiant y gwaith hadu a'r plannu. Yn ychwanegol at hadu, argymhellir fod 'plygiau' grug yn cael eu plannu.
- Mae'r atodlen plannu llwyni a choed yn cynnwys rhai rhywogaethau nad ydynt yn gynhenid i'r ardal ac ni fyddant yn ffynnu yn nhir asid y chwarel lechi sy'n brin o ran maetholion. Argymhellir defnyddio coed ceirios gwyllt, bedw, criafol a derw mes di-goes.
- Cafodd y gwaith monitro ei amlinellu dan adran 8.4, er hynny, argymhellaf fod adroddiad monitro yn cael ei ddarparu sy'n cynnwys ffotograffau, mapiau cynefinoedd a rhestrau rhywogaethau.
- Mae planhigion ymledol nad ydynt yn gynhenid yn y chwareli a'r tomenni ac rwyf yn argymell y dylid rheoli rhywogaethau planhigion ymledol fel rhododendron a choed mêl (buddleia).

Datblygu Economaidd a Chymunedau Gwynedd:

Dim Ymateb

Cyfoeth Naturiol Cymru:

- Ar sail y wybodaeth sydd yn y cais, nid yw CNC yn ystyried bod y datblygiad arfaethedig yn effeithio'r materion a restrwyd yn eu pynciau ymgynghori, Gwasanaeth Ymgynghorol Cynllunio Datblygu, ac felly nid oes ganddynt unrhyw sylw i'w wneud ar y datblygiad arfaethedig.
- Dylid rhoi gwybod i'r ymgeisydd, yn ogystal â chaniatâd cynllunio, mai ei ddyletswydd yw sicrhau ei fod yn caffael yr holl hawlenni/caniatadau eraill sy'n berthnasol i'w ddatblygiad.

Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd:

Dim sylwadau i'w gwneud mewn perthynas â'r cais.

Uned Dŵr a'r Amgylchedd YGC:

Dim sylwadau o ran draenio neu risg llifogydd mewn perthynas â’r cais hwn.

Network Rail:

Cyflwynwyd ymateb cyffredinol ar gais C20/0066/03/AC, yn cadarnhau nad oes gan Network Rail unrhyw wrthwynebiad i gynigion y datblygiad sydd o dan ystyriaeth yma;

- Y datblygiad gweithredol lleiaf a fwriedir a bydd y safle'n parhau i brosesu deunydd a ddaw o'r

dyddodion gwaith mwynau. Ni fydd unrhyw newid sylweddol i'r gwaith a wneir ar y safle.

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Gosodwyd hysbysiad mewn lleoliad gerllaw'r safle ar y 4ydd Chwefror 2020, ac fe hysbyswyd cymdogion cyfagos drwy lythyr. Ni dderbyniwyd llythyrau'n gwrthwynebu mewn ymateb i gyhoeddusrwydd statudol ar y cais, dim ond un llythyr o gynrychiolaeth sydd yn cyflwyno'r pryderon isod;

- Posibilrwydd bod allyriadau o'r gwaith yn cynnwys nwyon sy'n effeithio ar iechyd a llesiant trigolion cyfagos.

Ymgynghorydd Iaith Cyngor Gwynedd: Dim gwrthwynebiad

- Nodir bod y cais yn ceisio parhau gweithrediad busnes presennol ac nid yw'r cynnig yn cynrychioli unrhyw newidiadau iddo, sydd ar hyn o bryd yn cyflogi 9 o staff llawn amser gan gynnwys canran uchel o siaradwyr Cymraeg.
- Mae'r busnes yn defnyddio cyflenwyr lleol ble fo'n bosib sy'n cynnal y safle presennol o ran cyfleoedd cyflogaeth ac felly cytuna'r ymgynghorydd iaith gyda'r asesiad effaith a gyflwynwyd gyda'r cais.
- Awgrymir y bydd nodyn i'r ymgeisydd ar yr hysbysiad penderfyniad yn annog gweithredwr y safle i ddarparu arwyddion dwyieithog ble fo'n bosib, i wella delwedd dwyieithog y cwmni.

**Asesu'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**5. Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae'r cais hwn yn ceisio sicrhau parhad gweithrediad y gwaith prosesu llechi am 20 mlynedd arall. Nid yw'r cais yn cynnwys cynigion i ymestyn gweithfeydd y chwarel na chynyddu'r allbwn dros 9 llwyth y dydd fel y caniateir dan ganiatâd cynllunio C03M/0010/03/MW, a ganiatawyd yn ddarostyngedig i amodau ar 18fed Mehefin 2003.

5.2 Fel y Awdurdod Cynllunio Mwynau, mae gan y Cyngor ddyletswydd i sicrhau bod adnoddau mwynau'n cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy, fel y gallant gyfrannu'n briodol at ofynion deunyddiau adeiladu'r ardal. Mae gan Wynedd hanes hir o gloddio mwynau, ac mae'n parhau i fod yn rhan bwysig o'i gwead economaidd a chymdeithasol. Yn draddodiadol, mae gweithfeydd llechi yng Ngwynedd wedi'u cysylltu â chynhyrchu deunyddiau toi o ansawdd uchel, ond yn fwy diweddar caiff y llechi eu defnyddio i wneud slabiau wedi'u llifio ar gyfer defnydd pensaernïol, i wneud deunyddiau addurniadol ar gyfer adeiladau, a defnyddir gwastraff llechi hefyd fel agreg eilaidd yn lle adnoddau sylfaenol traddodiadol. Mae Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd yn cydnabod bod gwastraff llechi yn adnodd gwerthfawr y gellir ei ddefnyddio fel ffynhonnell agregau amgen sy'n lleihau'r pwysau ar y prif adnoddau mwynau.

5.3 O ran yr angen am y datblygiad, nid yw'r bwriad felly gyfystyr ag estyniad i fanc tir na chronfeydd craig galed yr awdurdod yn ôl y polisi ac arweiniad cenedlaethol cyfredol a geir yn NCTM1 (Cymru) Agregau a'r Datganiad Technegol Rhanbarthol. Diben y cais yw cadw isadeiledd presennol y chwarel a darparu cyfleuster fydd yn parhau i brosesu deunyddiau llechi eilaidd o sawl ffynhonnell, yn cynwys deunyddiau a

dynnwyd o ddyddodion gwaith mwynau yn chwarel yr Oakley. Yn y cyd-destun hwn, mae'r datblygiad yn cydymffurfio â Pholisi Strategol PS 22 a Pholisi MWYN 3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn.

5.4 Yn ogystal â'r egwyddor am yr angen am y datblygiad, mae’r materion cynllunio hanfodol yn yr achos hwn yn cael sylw isod;

**Mwynderau Gweledol**

5.5 Mae chwarel yr Oakley yn ymestyn dros ardal sylweddol ar ystlys de-orllewinol Moel Druman sy'n edrych dros Flaenau Ffestiniog, ac yn llunio rhan o dreftadaeth gwaith llechi sylweddol sy'n ymestyn tua'r gogledd ar hyd cefnffordd y A470. I'r gogledd o'r chwarel mae cronfa ddŵr Llyn Ffridd y Bwlch, ble mae'r dirwedd yn codi'n serth (a nodweddir gan darenni) i ffurfio ardal ucheldir agored wedi ei britho gan ardaloedd planhigfeydd coetir. Lleolir safle'r cais oddeutu 650m i'r dwyrain o derfyn y Parc Cenedlaethol ac mae'r cyfan ohono o fewn cyfadeiladau Chwarel yr Oakley, gan ffurfio rhan o ddynodiad Tirwedd Hanesyddol o waith mwyngloddio a darfwyd ym Mlaenau Ffestiniog. Fel y soniwyd uchod, mae'r bwriad yn ceisio sicrhau parhad gweithrediad y gwaith prosesu llechi am 20 mlynedd arall.

5.6 Caiff arwyddocâd posib yr effeithiau ar y dirwedd ac yn weledol eu pennu gan gyfuniad o raddfa'r effaith bosib a sensitifrwydd lleoliad y dirwedd i newid. Byddai’r datblygiad arfaethedig yn achosi effeithiau uniongyrchol ar dirwedd safle’r cais sy'n anochel oherwydd natur y datblygiad. Ystyriwyd sensitifrwydd y dynodiadau sydd o amgylch y dirwedd, yr ardaloedd preswyl a'r derbynyddion hamdden. Mae pellter a graddfa’r adliniad arfaethedig hefyd yn ffactorau allweddol, gan y byddai’n anodd gwahaniaethu’r bwriad oddi wrth weithfeydd presennol y chwarel, sydd eisoes wedi’u caniatáu, o olygfannau o bell.

5.7 Mae'r gwerthusiad gweledol a gyflwynwyd gyda'r cais yn cadarnhau bod; "Graddau'r newid esthetig a chanfyddiadol yn gyfyngedig oherwydd presenoldeb adeiladau eraill sy'n gysylltiedig gyda'r broses echdynnu mwynau yn chwarel yr Oakley ac ehangder y tomenni llechi eraill a'r tirweddau mwynau. *Byddai cyfnod estynedig y gwaith yn arwain at estyniad tarfu gweledol a ffisegol yn ardal y datblygiad arfaethedig, yn y tomenni a nodwyd a hefyd yn y gwaith mwynau presennol. Er hynny, ar ôl adfer yr ardal wedi symud y tomenni byddai'r safle'n gwella ac yn debycach i'r tirlun naturiol a welir y tu allan i'r ardaloedd llechi gan gynrychioli gwelliant cadarnhaol yn y tirlun," a;* "Nodwedd allweddol y tirlun yw ymddangosiad y chwarel lechi ac ni fyddai'r datblygiad arfaethedig yn newid hyn. *Er bod safle'r gwaith mwynau yn wahanol o ran cymeriad i'r tomenni a'r arwynebau llechi sy'n tra-arglwyddiaethu ar y tirlun, maent yn gydran ategol, gyda adeiladau presennol eraill a gweddillion adeiladau hanesyddol i'w gweld drwy'r ardal ehangach ...".*

5.8 Mae'r adroddiad yn nodi'r prif dderbynyddion gweledol fel; defnyddwyr yr A470 fel mae'r ffordd yn mynd o amgylch tro gan edrych i'r de tuag at Chwarel yr Oakley, golygfeydd o'r gwaith mwynau presennol a thirwedd Chwarel yr Oakley ym mynedfa'r safle oddi ar yr A470, golwg o gefn safle'r cais a chyfadeiladau ehangach y safle o Fythynnod Tal y Waenydd a Thai Oakley a; cerddwyr sy'n defnyddio'r hawl tramwyo cyhoeddus yn safle chwarel Llechwedd sy'n dringo'r bryn i'r dwyrain o'r A470 gan groesi atyniad Zip World a'r trac beiciau sy'n mynd lawr y mynydd. Er y gallai golygfeydd yn y pellter fod yn bosib o diroedd uwch i'r gogledd (o fewn Parc Cenedlaethol Eryri) mae graddfa'r datblygiad yng nghyd-destun safle ehangach y chwarel, ynghyd â phellter yr olygfa, yn cyfyngu arwyddocâd unrhyw effaith, yn

cynnwys golygfeydd o'r eiddo i'r de o ardal y cais oddi fewn i anheddiad Blaenau Ffestiniog.

5.9 Mae'r effeithiau gweledol a thirwedd posib yn cynnwys cyfuniad o waith y safle a chadw adeilad y gwaith a thir ategol am 20 mlynedd arall. Mae'r gwerthusiad yn crynhoi'r effeithiau gweledol ac ar y tirwedd mewn golygfannau cynrychioliadol, sy'n cadarnhau maint a graddfa'r newid fel bychan i ddibwys i dderbynwyr o sensitifrwydd canolig i uchel, (rhai sy'n cymryd rhan mewn weithgareddau awyr agored, cerddwyr ac eiddo preswyl), wedi ystyried y cyfnod hirdymor a dad-wneud effeithiau'r datblygiad a graddau daearyddol cyfyngedig y newid.

5.10 Er bod gwaith tynnu'r tomenni yn amodol i gynllun graddol i'w tynnu, nid yw cyflenwad deunydd i'r gwaith prosesu ddim yn hollol ddibynnol ar weddill y mwynau wrth gefn sydd yn y domen lechi ac nid yw'n debygol y bydd y gwaith mwynau yn cael ei ddefnyddio am y cyfnod llawn o 20 mlynedd o'r caniatâd cynllunio. Nid yw'r gwaith yn amlwg mewn unrhyw fodd o'r mannau gweld ac mae ei raddfa a'i gyd-destun yng ngwaith y chwarel ble mae wedi ei leoli yn addas, ond nid yw'r adroddiad yn nodi'r simnai las a'r hopran fel marciwr i fwyafrif y derbynyddion gweledol. Yn yr hirdymor, byddai manteision adfer cadarnhaol yn cynnwys tynnu'r peiriannau a'r strwythurau a'r adeiladau cysylltiedig yn gyfan gwbl, er ar wahân ni fyddai hyn yn gwella llawer ar dirlun y chwarel a byddai'n dibynnu ar gynllun adfer i'r safle cyfan. Yn y tymor byr, gellid gwella effaith weledol safle'r gwaith pe byddai'r simnai a'r hopran cysylltiedig yn cael eu hamodi i bennu bod y gorffeniad allanol yn cyd-fynd â lliw llwyd y gwaith presennol.

5.11 Mae Polisi MWYN 3 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn yn darparu'r meini prawf o ran ceisiadau i waith mwynau gyda Pholisi MWYN 9 yn amlinellu'r gofyniad am gynigion adfer. Mae'r cynllun adfer yn cynnwys creu tirffurf fydd yn ail-greu ac efelychu nodweddion naturiol y ddaear a nodweddion draenio. Mae'r cynllun hefyd yn ymdrin â phryderon Biomrywiaeth Gwynedd i greu cynefinoedd fel rhostir a choetir gyda nodweddion bywyd gwyllt fel pyllau, ardaloedd gaeafgysgu i ymlusgiaid a mannau gorffwys i ddyfrgwn.

5.12 Bydd cynigion adfer yn amodol i gynllun ôl-ofal 5 mlynedd ac yn cynnig bod y tomenni sydd wedi eu hail-weithio, tir ategol ac ardal safle'r gwaith yn cael eu hadfer i gyfuniad o fosaig rhostir gydag ardaloedd o brysg wedi'i reoli /cynefin coetir arloesi a sefydlu ardaloedd o laswelltir gwlyb mewn mannau is, ble gall dŵr wyneb gronni ar adegau. Byddai ardaloedd o gynefinoedd tir agored/dilynol hefyd yn cael eu cynnwys i adlewyrchu patrwm naturiol y tirlun a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd a gyflwynwyd gan y tirffurf chwarel presennol. Felly, bydd amcanion allweddol y cynllun yn cyfannu/cyfweddu'r safle i'w amgylchedd; yn gwella bioamrywiaeth a chryfhau patrwm y tirlun gan gyd-fynd â'r amcanion a amlinellwyd yn yr asesiadau cymeriad y tirlun.

5.13 O fewn cyd-destun cyffredinol safle presennol Chwarel yr Oakley, mae gan y tirlun a nodwyd a'r newidiadau gweledol lefel effaith cyfyngedig ac nid yw ymestyn cyfnod gweithrediad y gwaith arfaethedig a gweithio'r tomenni a nodwyd yn golygu unrhyw lefelau effaith mawr. Yn ddarostyngedig i amod sy'n gofyn bod lliw y simnai a'r hopran gysylltiedig yn cydweddu â safle'r gwaith presennol, ystyrir felly bod y bwriad yn dderbyniol mewn egwyddor gan fod y datblygiad yn cydymffurfio â pholisïau AMG 3, AT 1, MWYN 3 a MWYN 9 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

**Treftadaeth Ddiwylliannol**

5.14 Nid oes unrhyw henebion rhestredig oddi fewn neu ger y safle, er ei fod wedi'i gynnwys ar y Gofrestr o Dirluniau Hanesyddol a cheir rhesdai Rhestredig Gradd II (Bythynnod Chwarelwyr) 660m i'r de o ardal y cais. Nid yw'r safle wedi ei gynnwys yn eiddo enwebedig Cais Safleoedd Treftadaeth y Byd arfaethedig, (Tirweddau Llechi Gogledd-orllewin Cymru). Cynhaliwyd Arolwg Archeolegol helaeth yn flaenorol gyda chais cynllunio C00M/0011/03/MW yn 2000. Roedd yr amodau oedd yn atodol i'r cais cynllunio hwn yn gwneud trefniadau priodol i gofnodi nodweddion o'r fath yn unol ag argymhellion yr Adroddiad Atodol, Ystyriaethau Archeolegol/Treftadaeth Ddiwylliannol a gyflwynwyd yn Awst 2000. Mae materion yn ymwneud â chofnodi archeolegol sy'n ofyniad o'r caniatâd cynllunio cyffredinol, yn mynd rhagddynt.

5.15 Mewn ymateb i ymgynghoriad, cadarnhaodd Gwasanaeth Archeolegol Gwynedd nad oes unrhyw oblygiadau archeolegol sylweddol i'r bwriad arfaethedig i ail-weithio deunydd ac fe ystyrir felly na fydd gan y bwriad effaith sylweddol ar Dirwedd Hanesyddol Ffestiniog na lleoliad Safle Treftadaeth y Byd Arfaethedig.

5.16 Felly, mae'r bwriad yn cydymffurfio gyda Polisiau AMG 3, PS 20, AT 1 a AT 3 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-2016.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.17 Mae natur y cais hwn yn debyg i'r math o weithgaredd a weithredwyd ar y safle am sawl blwyddyn sydd wedi bod yn destun rheolaethau amgylcheddol drwy amodau cynllunio, neu ganiatâd arbennig a roddwyd dan gylch gorchwyl arbenigol Cyfoeth Naturiol Cymru a/neu Gwarchod y Cyhoedd Gwynedd. Er hynny, ychydig, os o gwbl, o achosion fu ble cafwyd cwynion ynghylch symud a phrosesu llechi o domenni Bryntirion neu weithrediad y gwaith prosesu. Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiad gan drigolion yng nghyffiniau cyfagos y safle mewn ymateb i gyhoeddusrwydd statudol y cais yma ac eithrio un llythyr am arogl a nwyon ddaw o safle'r gwaith gan effeithio ar iechyd a llesiant trigolion cyfagos, a godwyd yn flaenorol gyda gwasanaeth gwarchod y cyhoedd. Derbynyddion preswyl yn Nhal y Waenydd tua 220m i'r gorllewin sy'n adlewyrchu y lleiafswm pellter fel a ddiffiniwyd gan MTAN 1: Agredau a Pholisi MWYN 5 o'r CDLl ar y Cyd.

5.18 Fel y soniwyd yn y cyflwyniad, mae'r gweithredwr yn gweithredu gwaith mwynau sy'n prosesu gwastraff llechi i gynhyrchu cynhyrchion llechi gronynnog a phowdrau. Caiff y deunydd ei symud gan duriwr â thrac (tracked excavator) a'i fwydo i falwr safn (Jaw crusher) cyn ei drosglwyddo i hopran fwydo a chludydd sy'n cysylltu â'r gwaith mwynau drwy sychwr. Yn yr adeilad, caiff y gwastraff llechi ei felino a'i sgrinio gyda chyfran o'r deunydd wedi'i brosesu gyda haen o bigment lliw a/neu bolymer. Caiff y cynnyrch gorffenedig un ai ei lwytho'n uniongyrchol i danceri powdr neu ei roi mewn bagiau a'i storio cyn dosbarthu drwy ddefnyddio'r ffordd.

5.19 Mae'r adroddiad sŵn a gyflwynwyd gyda'r cais yn cadarnhau bod arolwg sŵn wedi ei gynnal yn yr eiddo sensitif i sŵn agosaf yn Nhal y Waenydd, yn unol â gofynion monitro'r amodau atodol i ganiatadau perthynol C03M/0010/03/MW a C10M/0103/03/MW. Mae'r canlyniadau monitro yn cadarnhau bod y sŵn gweithredu gaiff ei greu gan y gwaith ac wrth dynnu deunydd o'r tomenni llechi o fewn cyfyngiadau 50dB yn ystod y dydd a 40dB yn y nos a bennwyd dan amod, o ystyried yr holl ffynonellau sŵn allanol, sy'n deillio'n bennaf o Gefnffordd gyfagos yr A470.

5.20 Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys asesiad ansawdd aer sy'n nodi'r derbynyddion preswyl yn Nhal y Waenydd tua 220m i'r gorllewin, sy'n darparu asesiad pellach o'r

ffynonellau posib o ronynnau PM10 yn unol â'r canllawiau cynllunio ac amgylcheddol perthnasol gan gynnwys, Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 1: Agregau. Mae'r gwaelodlin ansawdd aer, amodau meterolegol a'r gweithgareddau gwaelodlin wedi eu hadnabod fel; prosesu mwynau (malu a sgrinio), trin deunyddiau (llwytho), cludiant ar y safle (tryciau dympio ar ffyrdd cludo) a chludiant oddi ar y safle.

5.21 Digwydd y gwaith o brosesu mwynau, yn cynnwys malu a sgrinio deunydd, drwy ddefnyddio peiriannau arbenigol oddi fewn i'r gwaith mwynau a hefyd o fewn ôl-troed dyddodyn y gwaith mwynau ble defnyddir peiriannau symudol dan Drwydded Amgylcheddol sydd ag offer atal llwch, mewn rhan gysgodol o'r domen lechi y tu ôl i'r tirffurfiau sgrinio. Yn y gwaith mwynau, mae'r gwaith o falu/melino llechi i gynhyrchu cynnyrch gronynnau mân a phowdrau yn digwydd mewn amgylchedd gynhwysol ac felly mae'r gwaith prosesu yn cael ei warchod mewn lloc gan leihau llwch rhag gollwng a ffoi i'r amgylchedd. Hefyd, mae powdrau yn cael eu trosglwyddo i swmp-danceri drwy bibellau gyda'r cynnyrch llechi gronynnol yn cael ei roi mewn bagiau a'u trosglwyddo i adeilad storio.

5.22 Yn absenoldeb mesurau lliniaru, mae posibilrwydd o hyd i greu lefelau canolig i uchel o allyriadau llwch o'r arwynebau agored, ardaloedd gweithredol, pentyrrau o agregau, llwybrau cludo a chludiant y cynnyrch gorffenedig oddi ar y safle. Mae mesurau lliniaru yn cynnwys lleihau'r uchder gollwng wrth ddadlwytho deunyddiau, defnyddio'r drefn bresennol o domenni fel bwnd sgrinio, lleihau pellter cludiant mewnol, defnydd o chwistrellwyr dŵr i wlychu arwynebau a llwybrau cludo yn ystod tywydd sych, cyfyngiadau cyflymder, lloc y gwaith ac ataliad llwch o ddeunyddiau yn ystod y gwaith malu.

5.23 Yn ychwanegol i'r uchod, mae'r awdurdod mwynau a chynllunio gwastraff yn ymgymryd â gwaith monitro rheolaidd i sicrhau bod cydymffurfio gyda'r atodlen o amodau cynllunio. Yn ogystal â'r rheoliadau rheoleiddio dan Ganiatâd Amgylcheddol, mae amodau cynllunio penodol eisoes wedi eu gosod o ran ansawdd aer sy'n cynnwys; cyfyngiad allbwn o naw llwyth y dydd, mae'r holl ffyrdd a'r llwybrau cludo yn cael eu gwlychu'n rheolaidd i atal llwch rhag codi a gorchuddio'r holl gerbydau sydd wedi eu llwytho ac yn gadael y safle, i atal allyriadau llwch.

5.24 Mae'r adroddiad ansawdd aer yn cyfeirio at y Lefelau Asesu Ansawdd Aer (AQAL) yng nghanllaw y Sefydliad Rheolaeth Ansawdd Aer (IAQM), "Guidance on the Assessment of Mineral Dust Impacts for Planning". O safbwynt gronynnau PM10, yr uchafswm crynodiad cymedrig blynyddol yn yr ardal yw 9.5ug/m3;' microgram fesul metr ciwbig o aer', (Defra, UK Air Information Resource (UK-AIR) gwefan, http://uk-air.defra.gov.uk/, mynediad Hydref 2019), ac felly yn llai na'r trothwy o 17µg/m3 yng nghanllaw IAQM, ble ystyrir mai ychydig o risg sy'n bodoli bod Cyfraniad y Broses (PC) o gyfadeiladau'r chwarel yn achosi gormodiant o'r AQAL cymderig blynyddol.

5.25 Felly, ystyrir y gall y safle weithredu heb achosi niwsans gormodol i fwynderau'r ardal dan delerau'r amodau cyfredol i brosesu llechi. I liniaru effeithiau amgylcheddol posib y datblygiad, mae gofyniad yn parhau am waith monitro sŵn blynyddol (oni chytunwyd fel arall yn ysgrifenedig) a dylai'r amodau sŵn ac ansawdd aer perthnasol gynnwys yr isod;

- Cyfyngu lefel sŵn yn ystod y dydd i 50db
- Cyfyngu lefel sŵn yn ystod y nos i 40db
- Cau gwaith y malwr sylfaenol i lawr dros nos
- Holl ddrysau/caeadau i gael eu cadw wedi eu cau dros nos

- Ni cheir ailgychwyn y gwaith ar ôl 22.00 awr (pe byddai'r gwaith yn torri i lawr dros nos ni fydd yn ail ddechrau tan y diwrnod canlynol)
- Ni weithredir y malwr allanol rhwng 07.00 awr a 22.00 awr.
- Ni fydd unrhyw loriau yn cael eu llwytho y tu allan i 07.00 awr a 22.00 awr.
- Bydd y cynnyrch gaiff ei orffen dros nos ei storio yn y prif adeilad tan y diwrnod canlynol
- Bydd gwaith monitro ansawdd yr aer a wnaed ar gais ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio mwynau, i fesur yr Amcanion Ansawdd Aer a/neu y Gyfradd Dyddodi Llwch yn cynnwys darpariaeth i fonitro amodau meteorolegol a'r dulliau, offer ac amlder a ddefnyddir i gofnodi presenoldeb llwch mewn lleoliadau penodol.

5.26 Ystyrir felly bod y datblygiad yn cydymffurfio â pholisi PCYFF 2, MWYN 3 a MWYN 5 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

**Materion traffig a mynediad**

5.27 Ni fydd traffig a thrafnidiaeth yn sgil gweithrediad y safle yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd isadeiledd y ffyrdd lleol. Fel y nodwyd ym mharagraff 3.19 o ddatganiad y cais, bydd anfon cynhyrchion llechi o'r safle yn cydymffurfio gyda'r cyfyngiadau a osodwyd dan amodau i 9 llwyth fesul diwrnod gwaith (dydd Llun i ddydd Gwener) gyda hyd at 2 lwyth ar ddydd Sadwrn, dydd Sul, Gŵyl y Banc a Gwyliau Cyhoeddus.

5.28 Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, nid yw Llywodraeth Cymru fel awdurdod priffyrdd cefnffordd yr A470 yn cyflwyno cyfarwyddyd o ran y bwriad ac nid yw Uned Priffyrdd a Thrafnidiaeth Cyngor Gwynedd yn bwriadu gwneud argymhelliad oherwydd ni ystyrir y bydd y datblygiad yn effeithio'n andwyol ar unrhyw briffordd na phriffordd arfaethedig. Felly, mae'r bwriad yn cydymffurfio gyda Pholisi TRA 4 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-2016.

**Bioamrywiaeth**

5.29 Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â safleoedd dynodedig statudol na materion ecolegol ynglŷn â'r safle hwn. Mae'r holl weithfeydd mwynau diraddedig yn yr Oakley a Gloddfa Ganol wedi eu dynodi fel safle bywyd gwyllt lleol (Chwarel/tomen - mosaig agored o gynefinoedd gyda rhostir) ac mewn ymateb i ymgynghoriad, cadarnhaodd swyddogion Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd ei bod yn annhebygol bod rhywogaethau yn cael eu heffeithio gan y bwriad yma o gofio nad oes llystyfiant i'w weld yn yr ardal dan sylw i echdynnu mwynau, ac felly nid oes cynefin yn y rhan o'r domen fydd yn cael ei gweithio.

5.30 Er hynny, mae'r ardaloedd oddi amgylch i weld â digon o lystyfiant, gyda rhywogaethau rhostir naturiol fel grug a gweiriau o werth bioamrywiaeth uchel a dylid eu cadw. Nid oes gan Uned Bioamrywiaeth Gwynedd wrthwynebiad i'r bwriad ond maent yn argymell bod gwaith adfer safle penodol yn cynnwys darpariaeth i greu cynefinoedd fel rhostir a choetir gyda nodweddion bywyd gwyllt fel pyllau, ardaloedd gaeafgysgu i ymlusgiaid a mannau gorffwys i ddyfrgwn.

5.31 Mewn ymateb i'r cynllun adfer a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd, mae'r uned bioamrywiaeth yn argymell y dylid defnyddio deunyddiau mewn ffordd fydd yn annog tyfiant planhigion a chytrefu, er enghraifft, defnyddio gronynnau mân, gwaddodion, clai, fydd yn cynorthwyo i greu pridd a swbstrad fydd yn dal dŵr. Awgrymir newidiadau pellach i'r gymysgfa hadau rhostir/glaswelltir yr ucheldir a glaswelltir gwlyb ond hefyd plannu 'plygiau' grug a newidiadau i'r rhestr i blannu llwyni a choed i gynnwys rhywogaethau sy'n gynhenid i'r ardal gyda cheirios gwyllt, bedw, criafol a

derw mes di-goes. Amlinellwyd y gwaith monitro dan adran 8.4, ac argymhellir bod adroddiad monitro yn cael ei ddarparu sy'n cynnwys ffotograffau, mapiau cynefinoedd a rhestrau rhywogaethau gyda strategaeth i reoli rhywogaethau ymledol nad ydynt yn gynhenid, fel rhododendron a choed mêl.

5.32 O ran yr effeithiau posib ar fioamrywiaeth lleol, gellir casglu felly na fydd y datblygiad yn achosi colli cynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig. Mae'r cynigion adfer yn cynnwys gwella bioamrywiaeth ac felly mae'r bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion Polisi AMG 3, AMG 5, AMG 6 a MWYN 3 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011 -2016.

**Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

5.33 Nid oes unrhyw lwybrau cyhoeddus na hawliau tramwy wedi'u lleoli o fewn ffin safle'r cais ac felly, nid oes gofyn i wneud unrhyw ddarpariaeth am warchodaeth benodol.

**Hydroleg a Hydroddaeareg**

5.35 Ystyrir na fydd y bwriad yma'n newid y sefyllfa bresennol. Mae cyfadeiladau Chwarel yr Oakley yn ymestyn dros ardal sylweddol ar ystlys de-orllewinol Moel Druman ac Allt Fawr ac wedi ei lleoli o fewn Parth Llifogydd A ar y Mapiau Cyngor Datblygu, ble mae ychydig neu ddim risg llifogydd afonol neu lanwol. Mae'r gwaith prosesu ar lefel o 302m AOD gyda'r tomenni yn cyrraedd hyd at oddeutu 340m AOD. Mae mwyafrif y greigwely sydd o dan y safle yn cynnwys cerrig llaid, lleidfeini a thywodfeini gyda sawl ymwthiad craig igneaidd wedi eu dynodi fel Dyfrfaen Eilaidd B.

5.35 Mae llif y dŵr daear yn strata'r creigwely yn debygol o gael ei gyfyngu i unrhyw orwelion tywodfeini sy'n bresennol ac nid yw safle'r cais wedi ei leoli mewn Parth Gwarchodaeth Dŵr Daear. Mae gweithrediad y gwaith a symud deunyddiau o'r tomenni gwastraff llechi yn parhau yn unol â'r mesurau priodol i liniaru risg damweiniau a gorlifoedd. Felly, mae'r bwriad yn annhebygol o effeithio'n sylweddol ar ansawdd y dŵr daear yn, ac yng nghyffiniau safle'r cais.

5.36 Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, cadarnhaodd Cyngor Tref Ffestiniog eu cefnogaeth i'r cais ar yr amod nad oes gan unrhyw ddatblygiad ar y safle yn y dyfodol effaith pellach ar ansawdd dŵr gwael iawn afon Barlwyd.

5.37 Ar hyn o bryd, mae unrhyw ddŵr wyneb o ganlyniad i ddyddodiad yn cael ei gasglu, ei setlo a'i ailgylchu drwy system arllwys ar y safle, ble mae'r safle yn draenio i chwarel gyfagos yr Oakley sydd yn wag i setlo cyn arllwys i afon Barlwyd dan ddarpariaethau caniatâd arllwys, sy'n cynnwys cyfyngiad ar solidau mewn daliant. Mae cydymffurfio gyda'r cyfyngiad yma'n cael ei fonitro yn barhaus yn unol â System Reolaeth Amgylcheddol y gweithredwr ac ni fu unrhyw sylwadau na phryderon yn ymwneud â draenio neu risg llifogydd mewn ymateb i'r ymgynghoriad gyda Cyfoeth Naturiol Cymru na Uned Risg Llifogydd a Draenio Tir Gwynedd.

5.38 Mae'r safle hefyd yn ddarostyngedig i ganiatâd gweithredu ar wahân dan y Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol ac o ran rheoli llif dŵr wyneb ac atal llifogydd, mae'r arferion rheoli presennol a chydymffurfio gyda'r caniatâd arllwys dŵr yn unol â gofynion Polisi PCYFF 6 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-2026.

## Materion cynaladwyedd

5.39 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn darparu diffiniad o ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru lle; “golyga datblygu cynaliadwy y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy weithredu, yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy, sydd â’r nod o gyflawni’r nodau llesiant” a; "gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygiad cynaliadwy yn golygu bod yn rhaid i gorff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy". Hefyd, mae'r adroddiad hwn wedi asesu materion cynaliadwyedd y cais yn unol â'r nod o ddatblygu cynaliadwy yn unol â saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i helpu i sicrhau bod cyrff cyhoeddus i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth o Gymru gynaliadwy.

5.40 Fel Awdurdod Cynllunio Mwynau, mae dyletswydd ar Gyngor Gwynedd i sicrhau bod adnoddau mwynau’n cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy, fel y gallant gyfrannu’n briodol at ofynion deunyddiau adeiladu’r ardal. Mae gan Wynedd hanes hir o gloddio mwynau, ac mae’n parhau i fod yn rhan bwysig o’i gwead economaidd a chymdeithasol. Yng ngogledd Cymru ceir tomenni helaeth o amrywiaeth o ddeunyddiau sy'n addas i’w defnyddio: creigiau igneaidd, tywod a graean a cherrig calch yn benodol. Mae gweithfeydd llechi yn gyffredin drwy Wynedd, ac yn draddodiadol fe’u cysylltid â chynhyrchu deunydd toi o ansawdd uchel. Yn fwy diweddar, caiff y llechi eu defnyddio i wneud slabiau wedi’u llifio ar gyfer defnydd pensaernïol, i wneud deunyddiau addurniadol ar gyfer adeiladau, a defnyddir gwastraff llechi hefyd fel agreg eilaidd yn lle adnoddau sylfaenol traddodiadol.

5.41 Cais yw hwn i geisio sicrhau parhad cynllun o weithio presennol a ganiatawyd, lle mae cronfeydd o lechi o ansawdd yn bodoli, yn hytrach na cheisio chwilio am ddeunydd mewn safleoedd newydd neu ailgychwyn safleoedd mwyn sydd wedi hen fynd yn segur.

## Yr Economi

5.42 Yng Ngwynedd, mae chwareli llechi wedi bod ffordd o fyw ers canrifoedd ac mae etifeddiaeth ei weithgarwch wedi dod yn gymaint o ran o ddiwylliant â thirwedd yr ardal â’r iaith Gymraeg a’r golygfeydd. Mae Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygiad Economaidd, yn datgan: wrth wneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio, bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol gadw mewn cof bod defnydd busnes traddodiadol, dosbarthiadau B1 – B8 ond yn cyfrif am ran o’r gweithgaredd yn yr economi. Mae’n bwysig bod y system gynllunio yn cydnabod agwedd economaidd pob datblygiad ac yn gwneud penderfyniadau cynllunio mewn modd cynaliadwy sy’n cadw cydbwysedd rhwng ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mae’n datgan ymhellach; Dylai awdurdodau cynllunio lleol gydnabod arwyddion y farchnad a rhoi sylw i'r angen i dywys datblygiad economaidd i’r lleoliadau mwyaf addas yn hytrach na rhwystro neu atal y fath ddatblygiad.

5.43 Bydd y datblygiad arfaethedig yn sicrhau cyflogaeth barhaus i'r gweithwyr sydd wedi'u cyflogi'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol o ganlyniad i weithrediadau'r chwarel. Yn fwy na hyn, mae cadw gweithwyr lleol yn cael effeithiau positif ar ddiwylliant, ac yn fwy penodol, ar statws y Gymraeg yn yr ardal. Mae'r cynnig sy'n ymwneud â'r cais yn hollol hanfodol i gyfraniad economaidd y cwmni yn y dyfodol. Mae’r cwmni’n gwneud cyfraniad uniongyrchol a sylweddol i’r economi lleol, yn cyflogi hyd at 9 o weithwyr/personel uniongyrchol llawn amser.

5.44 Felly, mae’n debygol y bydd y bwriad yn gwneud cyfraniad positif i economi’r ardal yn unol â Pholisi Strategol PS 13 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

## Yr Iaith Gymraeg

5.45 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ymdrin â phwysigrwydd y Gymraeg wrth gyflawni ei amcanion cynaliadwyedd i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae paragraff 3.25 yn datgan*"Mae’r Gymraeg yn rhan o ffabrig cymdeithasol a diwylliannol a bydd ei llesiant i’r dyfodol yn dibynnu ar bob math o ffactorau, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sail economaidd gadarn i gynnal cymunedau a mannau cynaliadwy sy’n ffynnu. Dylai’r system cynllunio defnydd tir ystyried yr amodau sy’n hanfodol i’r Gymraeg a, thrwy wneud hynny, gyfrannu at ei defnyddio a’r nod llesiant y Gymraeg sy’n Ffynnu."*

5.46 Cyflwynwyd Datganiad Iaith gyda'r cais yn unol â Pholisi PS1 o'r Cynllun Datblygu Lleol a'r canllawiau Cynllunio perthnasol; 'Cynnal a Chreu Cymunedau Unigryw a Chynaliadwy 2019'. Mae Polisi PS 1 (Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig) a Pholisi PS 5 (Datblygiad Cynaliadwy) yn ceisio hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn ardal y Cynllun a helpu i gefnogi a gwella'r amodau sy'n sicrhau cymunedau cynaliadwy a ffyniannus. Mae'r datganiad iaith yn asesu effaith y datblygiad arfaethedig ar gymunedau ac yn adnabod mesurau fydd un ai yn lliniaru'r effeithiau negyddol neu'n gwarchod/gwella/ lledaenu effeithiau cadarnhaol.

5.47 Bydd y cais hwn yn sicrhau parhad gwaith presennol ble mae'r gweithlu presennol eisoes yn dod o ardal o fewn radiws 10km i'r safle. Mae gan nifer sylweddol, yn cynnwys rheolwyr uwch, ystod o alluoedd yn y Gymraeg, gan gynnwys y gallu i siarad Cymraeg ac felly mae'r datblygiad yn debygol o gadw siaradwyr Cymraeg yn y gymuned leol ac yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Er y gallai'r datblygiad ddarparu cyfleoedd cyflogaeth yn lleol, nid oes unrhyw ofyniad di-oed i recriwtio. Bydd y bwriad felly yn cadw'r sefyllfa bresennol ble na fyddai unrhyw fewnfudiad o weithwyr i'r ardal.

5.48 Bydd y bwriad yn cynnal cyfleoedd cyflogaeth lleol a rhagwelir y bydd ganddo effaith bositif fach ar y Gymraeg yn y gymuned. Hefyd, ni fyddai unrhyw bwysau yn cael ei roi ar wasanaethau lleol. Yn gyffredinol felly, mae datganiad yr iaith Gymraeg yn dod i'r casgliad o ran parhad busnes sefydledig, na ystyrir bod camau lliniaru pellach yn angenrheidiol i hyrwyddo neu wella defnydd o'r iaith Gymraeg.

5.49 Nododd yr ymgynghorydd iaith bod y cais yn ceisio parhau gweithrediad busnes presennol ac nid yw'r cynnig yn cynrychioli unrhyw newidiadau iddo, sydd ar hyn o bryd yn cyflogi 9 o staff llawn amser gan gynnwys canran uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae'r busnes yn defnyddio cyflenwyr lleol ble fo'n bosib sy'n cynnal y sefyllfa bresennol o ran cyfleoedd cyflogaeth ac felly mae'r ymgynghorydd iaith yn cytuno gyda'r asesiad effaith a gyflwynwyd gyda'r cais. Ystyrir bod y datblygiad yn cydymffurfio gyda pholisi PS1 a PS5 o Gynllun Datblygu ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-2026, ond mae'r ymateb i'r ymgynghoriad yn awgrymu ymhellach y dylid gosod nodyn i'r ymgeisydd ar y hysbysiad penderfyniad i annog gweithredwr y safle i ddarparu arwyddion dwyieithog ble fo'n bosib, i wella delwedd ddwyieithog y cwmni.

**6. Casgliadau:**

6.1 Mae hwn yn un o dri chais cynllunio i newid darpariaethau caniatadau cynllunio presennol i ymestyn cyfnod y gwaith mwynau ac i sicrhau parhad y gwaith. Mae'r cais hwn yn ceisio amrywio amod 1 ar ganiatâd cynllunio C03M/0010/03/MW, i ganiatáu parhau i weithredu'r gwaith prosesu mwynau am 20 mlynedd ychwanegol.

6.2 Nid yw cyflenwi deunydd i'r gwaith prosesu yn holl ddibynnol ar y mwynau wrth gefn sydd yn y domen lechi, ac fe ragwelir y bydd yn para am tua 5 mlynedd arall. Er hynny, mae'n debygol y byddai'r gwaith mwynau yn cael ei ddefnyddio am y cyfnod llawn o 20 mlynedd y caniatâd cynllunio. Er y cytunir nad yw'r gwaith yn amlwg mewn unrhyw fodd o'r mannau gweld, ac mae'r raddfa a'r cyd-destun yn addas yng ngwaith y chwarel ble mae wedi ei leoli, nid yw'r adroddiad yn nodi'r simnai las a'r hopran fel marciwr i fwyafrif y derbynyddion gweledol.

6.3 Mae angen i'r cynnig i barhau i ddefnyddio'r safle gwaith gael ei asesu yn erbyn meini prawf polisi cynllunio gan ymgynghori gyda'r awdurdod ar y cais hwn i ganfod effeithiau posib y datblygiad. Mae'r cyflwyniad yn ymdrin â'r ystyriaethau cynllunio materol wrth asesu effaith y datblygiad arfaethedig.

6.4 Mae'n annhebygol y bydd unrhyw newid amlwg yn amodau gweithio'r safle na newid i effaith weledol y gwaith ac ni fydd y datblygiad yn tynnu oddi wrth nodweddion cadarnhaol y dirwedd na'r elfennau hynny sy'n cyfrannu at gymeriad unigryw y dirwedd hanesyddol na'r cais Safle Treftadaeth y Byd. Nid oes unrhyw faterion polisi cynllunio sy’n ddigon arwyddocaol i gyfiawnhau gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, ac mae’r materion sy’n ymwneud â rheolaethau sŵn, llwch ac amgylcheddol bellach wedi hen sefydlu ar y safle gyda nifer gymharol fach o gwynion wedi eu hanfon er sylw'r awdurdod cynllunio mwynau.

6.5 Mae'r cynllun adfer sy'n cynnwys trin y ddaear agored, wedi i'r gweithrediadau ddod i ben a symud/dymchwel adeiladau/strwythurau cysylltiedig ac ardaloedd storio deunydd crai, yn gyson gyda'r hyn a gynigwyd yn yr Asesiad Amgylcheddol a gyflwynwyd gyda'r cynllun cymeradwy a'r cynlluniau ar gyfer Caniatâd Cynllunio yr Oakley C00M/0011/03/MW. Felly, bydd amcanion allweddol y cynllun yn cyfannu/cyfweddu'r safle yn ei amgylchedd; yn gwella bioamrywiaeth a chryfhau patrwm y tirlun gan gyd-fynd â'r amcanion a amlinellwyd yn yr asesiadau cymeriad y tirlun.

6.6 Mae PCC yn cefnogi defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu i roi llai o bwysau ar adnoddau sylfaenol. O'r herwydd, mae'n gweld yr angen i'r patrwm cyflenwi yng Nghymru i newid drwy wneud mwy o ddefnydd o ddeunyddiau eilaidd. O ran sicrhau cyflenwad amgen o ddeunyddiau, bydd egwyddorion mwyngloddio mwynau eilaidd yn dderbyniol ac o ran angen lleol, mae'r datblygiad yn cydymffurfio â meini prawf cynaliadwyedd Polisi PS 22 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd 2011-2026, gan ystyried y polisi cenedlaethol cyfredol i gynnal banc tir o fwynau wrth gefn yn unol â'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn NCTM (Cymru) Agregau a'r Datganiad Technegol Rhanbarthol. Yn ogystal, mae’n debygol y bydd y bwriad yn gwneud cyfraniad positif i economi’r ardal yn unol â Pholisi Strategol PS 13 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

6.7 Nid oes unrhyw oblygiadau archeolegol sylweddol gyda pharhau i weithredu safle'r gwaith ac felly ystyrir na fydd gan y bwriad effaith sylweddol ar Dirwedd Hanesyddol

Ffestiniog na lleoliad y Safle Treftadaeth y Byd Arfaethedig. Mae'r bwriad felly'n cydymffurfio gyda Pholisïau AMG 3, PS 20, AT 1 ac AT 3 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-2016.

6.8 Ystyrir y gall y safle weithredu heb achosi niwsans gormodol ar fwynderau'r ardal dan delerau'r amodau cyfredol i dderbyn, prosesu a dosbarthu llechi. I liniaru yn erbyn effeithiau amgylcheddol posib y datblygiad, mae'r amodau sŵn ac ansawdd aer perthnasol yn cael eu dyblygu i gynnwys gofyniad am waith monitro blynyddol. Ystyrir felly bod y datblygiad yn cydymffurfio â pholisi PCYFF 2, MWYN 3 a MWYN 5 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

6.9 Ni chafwyd unrhyw sylwadau na phryderon yn ymwneud â draenio neu risg llifogydd mewn ymateb i'r ymgynghoriad gyda Chyfoeth Naturiol Cymru neu Uned Risg Llifogydd a Draenio Tir Gwynedd ac felly ystyrir na fydd gan y bwriad effaith andwyol ar yr amgylchedd dŵr lleol (POLISI PCYFF 6). Mae materion a fyddai fel arall yn destun caniatâd gollwng ar wahân neu Drwydded Amgylcheddol wedi eu rhestru yn yr adroddiad hwn a byddant yn cael eu dwyn i sylw'r datblygwr drwy 'nodyn i'r ymgeisydd' a gyflwynir gyda'r caniatâd cynllunio, ond ni fyddant i'w gweld yn y rhestr o amodau cynllunio sy'n atodol i'r hysbysiad penderfyniad ei hun.

6.10 Ni ystyrir y caiff y bwriad effaith niweidiol ar fioamrywiaeth leol dan Bolisi AMG 5 ac mae cyfle i wella asedau o'r fath yn y cynllun adfer.

6.11 Ni fydd gan y datblygiad effaith andwyol ar unrhyw briffordd, na phriffordd arfaethedig. Felly, mae'r bwriad yn cydymffurfio gyda Pholisi TRA 4 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-2016.

6.12 Bydd gan y datblygiad effaith gadarnhaol fechan ar y Gymraeg ac fe ystyrir felly bod y datblygiad yn cydymffurfio â chanllawiau pholisïau PS 1 a PS 5 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

6.13 Mae'r cynnig yn bodloni anghenion cynaliadwyedd Polisi Cynllunio Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

7. **Dirprwyo'r hawl i Bennaeth Cynorthwyol yr Adran i gymeradwyo'r cais, yn ddarostyngedig i'r newid isod i Amod 1 ar ganiatâd cynllunio C03M/0010/03/MW, i ganiatáu parhau i ddefnyddio'r gwaith prosesu llechi.**

7.1 *Rhoddir caniatâd drwy hyn am gyfnod cyfyngedig hyd at 31ain Ionawr 2040, a phan ddaw'r cyfnod i ben bydd holl adeiladau, cyfarpar, peiriannau ac offer wedi cael eu symud a bydd y safle wedyn yn cael ei adfer yn unol â'r cynllun adfer a dderbyniwyd ar - Mawrth 2020.*

7.2 Bydd y datblygiad yn ddarostyngedig i'r un atodlen o amodau dan y caniatâd cynllunio blaenorol C03M/0010/03/MW i reoli sŵn, llwch, dirgryniad, gwarchod yr amgylchedd dŵr, oriau gweithredu, allbwn, cydymffurfio â chynlluniau'r cais, adolygu gweithrediadau ac adfer ond yn benodol;

- Cyfyngu lefel sŵn yn ystod y dydd i 50db
- Cyfyngu lefel sŵn yn ystod y nos i 40db
- Cau gwaith y malwr sylfaenol i lawr dros nos
- Holl ddrysau/caeadau i gael eu cadw wedi eu cau dros nos
- Ni cheir ailgychwyn y gwaith ar ôl 22.00 awr (pe byddai'r gwaith yn torri i lawr dros nos ni fydd yn ail ddechrau tan y diwrnod canlynol)
- Ni weithredir y malwr allanol rhwng 07.00 awr a 22.00 awr.

- Ni fydd unrhyw loriau yn cael eu llwytho y tu allan i 07.00 awr a 22.00 awr.
- Bydd y cynnyrch gaiff ei orffen dros nos yn cael ei storio yn y prif adeilad tan y diwrnod canlynol

7.3 Nodyn i'r ymgeisydd gyda'r chyngor statudol Network Rail a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi ei atodi i'r hysbysiad penderfyniad.

Nodyn i'r ymgeisydd i annog gweithredwr y safle i ddarparu arwyddion dwyieithog ble fo'n bosib i wella delwedd ddwyieithog y cwmni.